**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Lynne Neagle AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Tachwedd 2017

Annwyl Lynne

**Senedd Ieuenctid**

Roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am brosiect y Senedd Ieuenctid yn dilyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Medi lle y gwnaethom ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Senedd Ieuenctid.

Byddwch yn ymwybodol fod 5,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad dros yr haf. Dyma rai o'r meysydd allweddol yr oedd pobl ifanc yn cytuno arnynt:

- dylid cynnal etholiadau i ddewis aelodau'r Senedd Ieuenctid,
- dylai'r aelodau fod rhwng 11 a 18 oed,
- dylai aelodau gael eu hethol am ddwy flynedd,
- dylai'r Senedd Ieuenctid fod yn annibynnol ar bob plaid wleidyddol.

Mae tabl llawn o'r canfyddiadau isod.

Ystyriodd y Comisiynwyr ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Senedd Ieuenctid, a chytunwyd i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru, gan gynnal etholiadau ym mis Tachwedd 2018.

Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â phobl ifanc a'r sefydliadau o bob cwr o Gymru sy'n gweithio dros bobl ifanc er mwyn creu corff, a gaiff ei arwain gan bobl ifanc, i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed fel rhan o'r broses ddemocrataidd.

Cofion cynnes

Elin Jones AC
Llywydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

| |
|---|
| Roedd **89 y cant** o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid galw'r sefydliad yn *'Senedd Ieuenctid Cymru'/ 'Welsh Youth Parliament'.* |
| Cytunai **96 y** cant mai nod y Senedd Ieuenctid ddylai fod i '*roi llais democrataidd i bobl ifanc Cymru ar lefel genedlaethol, a'u grymuso i sicrhau newid'.* |
| Credai **88 y cant** y dylid cynnal etholiadau i ddewis aelodau'r Senedd Ieuenctid. |
| Cytunai **85 y cant** y dylai'r Senedd Ieuenctid fod â 60 o aelodau, sef 40 i gynrychioli etholaethau etholaethol Cymru a 20 i gynrychioli grwpiau penodol. |
| Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn am ystod oedran arfaethedig aelodau'r Senedd Ieuenctid, ond cytunodd bron i ddwy ran o dair y dylai aelodau fod rhwng 11 a 18 mlwydd oed **(65 y cant).** |
| Roedd bron dri chwarter y bobl ifanc a holwyd **(74 y cant)** yn credu y dylid ethol aelodau am ddwy flynedd, ac roedd **81 y cant** yn cytuno y dylai aelodau allu sefyll sawl gwaith. |
| Roedd **82** y cant yn credu y dylai'r Senedd Ieuenctid fod yn annibynnol ar bob plaid wleidyddol. |
| Roedd dros naw o bob deg o bobl ifanc **(94 y cant)** o'r farn y dylai cyfrifoldebau arfaethedig y Senedd Ieuenctid yn y dyfodol gynnwys:<br>– Ymchwilio, dadlau ac ymgyrchu ar faterion a ddewisir gan bobl ifanc;<br>– Gwrando ar bobl ifanc a chynrychioli eu barn;<br>– Ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad;<br>– Helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio;<br>– Cyfarfod â'i gilydd o leiaf ddwywaith bob blwyddyn galendr;<br>– Adrodd yn ôl i'r bobl ifanc y mae'n eu cynrychioli am ei waith a'i gyflawniadau yn rheolaidd. |



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403